Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Newid yn yr Hinsawdd a Natur

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Lilian Hopkin, Neuadd y Ddinas / MS Teams

Dydd Mawrth, 14 Mai 2024 am 10.00 am

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S E Keeton (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cynghorydd(wyr)	**Y Cynghorydd(wyr)**	**Y Cynghorydd(wyr)**
M W Locke	C M J Evans	E W Fitzgerald
B J Rowlands	O G James	M H Jones
W G Thomas		

Hefyd yn Bresennol

Cyril Anderson	Aelod y Cabinet dros y Gymuned (Gwasanaethau)
David Hopkins	Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol
Andrea Lewis	Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau

Swyddog(ion)

Liz Jordan	Swyddog Craffu
Rachel Lewis	Rheolwr Prosiect y Gyfarwyddiaeth
Paul Meller	Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol
Jane Richmond	Rheolwr Prosiect Strategol Newid yn yr Hinsawdd
Mark Wade	Cyfarwyddwr Lleoedd

Ymddiheuriadau am absenoldeb
Y Cynghorwyr: J A Hale
Hefyd yn bresennol: A H Stevens

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

5 **Diweddariad ar Newid yn yr Hinsawdd (gan gynnwys cyflawniad yn Ymrwymiadau Polisi Corfforaethol / Amcanion / Erbyn Blaenoriaethau)**

Roedd Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Cyril Anderson, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol yn bresennol ynghyd â swyddogion perthnasol i ddiweddaru'r Panel ac ateb cwestiynau.

Pwyntiau Trafod:

- Gofynnodd y Panel beth yw'r heriau mwyaf i'r Cyngor, o ran Newid yn yr Hinsawdd a Natur, i gyflawni ei nodau ar wahân i arian, ac a oes unrhyw beth arall y gallai'r Panel ei wneud i helpu. Fe'u hysbyswyd fod sawl her. Awgrymwyd yn y Gweithgor Tyfu Cymunedol y diwrnod cynt y gellid annog ysgolion i gael llywodraethwr 'gwyrdd' pwrpasol i hyrwyddo newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni a bioamrywiaeth. Roedd y Panel yn frwd dros y syniad hwn a chytunwyd gwneud yr argymhelliad hwn i Aelodau'r Cabinet. Cefnogwyd hyn yn llawn gan Aelodau'r Cabinet.
- Mae enghreifftiau eraill lle gall y Panel helpu yn cynnwys:
  - Drwy bartneriaethau, drwy hyrwyddo'r gwaith hwnnw ac annog partneriaid i gael mwy o fewnbwn.
  - Cyfeirio pobl at y ganolfan effeithlonrwydd ynni ar y Stryd Fawr
  - Mae pot bach o arian yn y Fframwaith Partneriaid Amgylcheddol, a dylai cynghorwyr siarad â swyddogion i weld a oes prosiectau bach yn eu wardiau a allai elwa.
  - Bydd gweithdai yn cael eu cynnal yn y gymuned ar addasu i'r hinsawdd a'i liniaru, a gwerthfawrogir cyfranogiad cynghorwyr.
- Trafododd y Panel bwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus a gofynnwyd a oes deddfwriaeth newydd wedi'i chyflwyno sy'n datgan y bydd yn rhaid i bob car newydd gael y pwynt gwefru yn yr un lle, ac os felly, pa effaith y bydd hyn yn ei chael ar osod pwyntiau gwefru. Cytunodd Aelod y Cabinet i ddarparu ymateb ysgrifenedig llawn yn dilyn y cyfarfod.
- Holodd y Panel ynghylch ailgylchu batris. Maent yn ymwybodol o gynllun gwych ar gyfer batris cartref, ond beth sy'n digwydd i fatris cerbydau. Fe'u hysbyswyd gan Aelod y Cabinet na fu unrhyw drafodaeth yn genedlaethol ynghylch gwaredu batris CT felly ni allant ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn ar hyn o bryd.
- Clywodd y panel o ran natur a bioamrywiaeth yn lleol, nad cyfrifoldeb y Cyngor yn unig ydyw ac mae angen iddo gyfleu i'r cyhoedd y gall pethau bach wneud gwahaniaeth i wella bioamrywiaeth a natur.
- Roedd y Panel yn hapus bod y Cyngor wedi ymrwymo i brynu ynni gwyrdd ond mae angen cofio nad yw hyn yn gwarantu bod yr ynni a ddefnyddir i wefru ein ceir yn dod o ffynonellau ynni adnewyddadwy.
- Dywedodd Aelod o'r Panel fod y Brifysgol wedi bod yn cynnal Prosiect Effaith Werdd i helpu i leihau'r defnydd o ynni ac annog newid ymddygiad gweithwyr, a gofynnodd a fyddai'r Cyngor yn ystyried gwneud rhywbeth tebyg. Cadarnhaodd

Aelod y Cabinet fod ganddynt ddiddordeb yn hyn, ac y byddant yn edrych arno'n fanylach i weld sut y gallai'r Cyngor, o bosib, ei gyflwyno ei hun.

- Mae gan y Panel bryderon am y cynwysyddion ailgylchu newydd ar gyfer gwydr a chaniau, o ran eu pwysau pan fyddant yn llawn, oherwydd gallai achosi problemau i bobl ag anabledd neu sy'n byw mewn fflat. Fe'u hysbyswyd y gall yr adran weithio gyda phreswylwyr sy'n anabl drwy eu hychwanegu at y rhestr 'Cymorth' sydd eisoes ar waith.

Camau Gweithredu:

- Caiff gwybodaeth ei darparu i'r Panel ar ddeddfwriaeth newydd ynghylch lleoliad pwyntiau gwefru ar geir, ac effeithiau hyn.
- Caiff y Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu ei hychwanegu at y cynllun gwaith ar gyfer blwyddyn newydd y Cyngor.

6 **Diweddariad am Natur a Bioamrywiaeth (gan gynnwys cyflawniad yn Ymrwymiadau Polisi Corfforaethol / Amcanion / Erbyn Blaenoriaethau)**

Roedd David Hopkins, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol a Paul Meller, Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol yn bresennol i ddiweddaru'r Panel ac ateb cwestiynau.

Pwyntiau Trafod:

- Clywodd y Panel fod yr ymchwiliad craffu ar Adfer Natur yn 2018 wedi gwneud nifer o argymhellion sydd wedi'u rhoi ar waith. Dywedodd swyddogion fod y gwaith hwn wedi dod yn fusnes fel arfer i'r Tîm Cadwraeth Natur ac awgrymasant y gallai'r Panel edrych ar y darlun ar draws y Cyngor. Nododd y Panel mai'r ffordd orau o wneud hyn yn ôl pob tebyg, o ystyried bod Adran 6 y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol bellach ar waith, yw cyflwyno'r adroddiadau hyn i'r Panel yn flynyddol.
- Hoffai'r panel weld 'Mai Di Dor' yn cael ei gyflwyno ar draws y Sir. Bydd Aelod y Cabinet priodol yn darparu ymateb llawn yn dilyn y cyfarfod.
- Gofynnodd y panel pam na all y Cyngor roi'r gorau i ddefnyddio chwynladdwyr, gan ddweud bod rhai cynghorwyr wedi gofyn iddo beidio â chael ei ddefnyddio yn eu wardiau eleni. Dywedodd Aelod y Cabinet fod hyn wedi cael ei drafod yn y Panel sawl gwaith ac mae aelodau'r ward bellach yn cael cyfle i ddewis peidio â chael hyn lle bynnag y bo modd. Bydd Aelod y Cabinet priodol yn darparu ymateb llawn yn dilyn y cyfarfod.
- Gofynnodd y Panel pam na all y Cyngor blannu mwy o erddi glaw. Bydd Aelod y Cabinet priodol yn darparu ymateb llawn yn dilyn y cyfarfod.
- Gofynnodd y Panel sut rydym yn gwybod a yw adfer natur yn gweithio a bod cynnydd mewn bioamrywiaeth. Fe'u hysbyswyd fod hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd; mae angen monitro cynnydd net mewn bioamrywiaeth boed hynny drwy geisiadau cynllunio neu fel rhan o waith y Cyngor yn gyffredinol.
- Nododd y Panel fod ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) wedi cychwyn a holwyd a fydd mesurau diogelu bioamrywiaeth yn cael eu gwella fel rhan o'r CDLl. Mae gorfodi gwybodus bob amser yn broblem ac mae'r Adran yn edrych i weld beth y gellir ei wneud.

- Dywedodd y Panel ei fod wedi bod yn siarad ers nifer o flynyddoedd am fioamrywiaeth o ran ceisiadau cynllunio, a gofynnwyd a fu unrhyw gynnydd. Mae'r Panel yn teimlo pe bai pob cais cynllunio yn cynnwys cwestiwn syml am wella bioamrywiaeth, byddai'n gwneud i bobl feddwl mwy am yr hyn y gallant ei wneud. Dywedodd Aelod y Cabinet eu bod yn gweithio tuag at werth ychwanegol at fioamrywiaeth ym mhob cais cynllunio ar hyn o bryd.
- O ran y CDLl, awgrymodd y Panel, pe bai safle maes glas yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tai, y byddai'n cael effaith sylweddol ar fioamrywiaeth na ellir byth wneud iawn amdano. Clywyd bod gwahanol fathau o safleoedd maes glas; nid yw pob un yn gyfoethog mewn bioamrywiaeth a gellir cyfoethogi safle, er enghraifft gyda gerddi glaw a choed.

Camau Gweithredu:

- Eitem ar 'Adran 6 y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol' i'w hychwanegu at y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

7 Adolygiad y Panel o'r flwyddyn 2023-24

Adolygodd Aelodau'r Panel eu blwyddyn ar y Panel Craffu Newid yn yr Hinsawdd a Natur a gwnaethant y sylwadau canlynol:

Beth aeth yn dda?

- Maent yn meddwl yr aeth popeth dda. Edrychwyd yn fanwl ar lawer o bynciau a gwnaed argymhellion da iawn.
- Un o'r darnau gorau o graffu oedd Rheoli Perygl Llifogydd Lleol - tynnodd hyn sylw at nifer o faterion a gobeithio y gwnaeth yr Adran ystyried yr hyn a ddywedwyd.
- Mae'n dda cael Cyfoeth Naturiol Cymru yng nghyfarfodydd y Panel o bryd i'w gilydd fel y gellir gofyn cwestiynau iddynt yn uniongyrchol. Dylai'r Panel barhau â hyn.

Beth, os o gwbl, y gellid ei wneud yn well?

- Gallai'r panel efallai dynnu sylw at faterion SUDS yn fwy. Mae angen gwneud mwy am hyn.
- Maent wedi bod yn gofyn am nifer o flynyddoedd i gwestiynau am fioamrywiaeth gael eu hychwanegu at geisiadau cynllunio. Nid ydynt yn meddwl bod y Panel wedi gwneud unrhyw gynnydd go iawn, ac mae'n debyg mai dyma lle gallai'r Cyngor wneud y newid mwyaf yn y maes hwn. Fel Panel, mae angen treulio ychydig mwy o amser yn edrych ar hyn yn y dyfodol.

Beth rydym wedi'i ddysgu a fydd yn ein helpu i wella a datblygu gwaith craffu yn y dyfodol?

- Mae angen ailedrych ar faterion sy'n peri pryder yn gyson a gofyn am gynnydd.

Bydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2024-25 yn cael ei ddrafftio a'i gylchredeg i'r Aelodau. Cytunir ar y fersiwn derfynol yn y cyfarfod nesaf ar 16 Gorffennaf 2024.

Cofnodion y Panel Perfformiad Craffu – Newid yn yr Hinsawdd a Natur (Dydd Mawrth, 14 Mai 2024)

Parhad

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 am